

I'w gadw yn y Gadeirlan.

Please do not remove this
booklet from the Cathedral.

Cydnabyddiaethau

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r
Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004 hawlfraint
© Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004.

Amserau a Thymhorau.
© Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2022.

Cysodwyd mewn Gill Sans Nova

Penawdau wedi'u teipio yn Cormorant Garamond

Hawlfraint © Cadeirlan Llandaf

Acknowledgements

An Order for the Holy Eucharist 2004,
material from which is included in this service is copyright
© The Church in Wales publications 2004.

Times and Seasons.
© Copyright the Representative Body of the Church in Wales 2022.

Typeset in Gill Sans Nova

Headings typeset in Cormorant Garamond

Copyright © Llandaff Cathedral



Ordinary Time | Sunday | 11.00am | **Order of Service**

CHORAL EUCHARIST

CYMMUN CORAWL

Amser Cyffredin | Dydd Sul | 11.00am | **Trefn y Gwasanaeth**

C R O E S O

Mae'n bleser gennym eich croesawu i'r gwasanaeth hwn yn eich Cadeirlan. Mae Eglwys Gadeiriol Saint Pedr & Paul, Teilo, Dyfrig, ac Euddogwy, wedi bod yn fan addoli Cristnogol ers dros 1,500 o flynyddoedd. Os ydych yn ymuno â ni am y tro cyntaf, cyflwynwch eich hun i aelod o'r offeiriadaeth, a byddant yn hapus i ddweud mwy wrthy ch am addoli yn y lle hwn.

Ers y cyfnod Cristnogol cynharaf, mae'r gair Ewcharist, sy'n dod o'r gair Groeg am 'ddiolchgarwch', wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r sacrament a sefydlwyd gan Iesu Grist yn y swper olaf. Mewn ffyddlondeb i gyfarwyddyd ein Harglwydd i 'wneud hyn er cof amdanaf' roedd yr Ewcharist neu'r Cymun yn cael ei ystyried o'r herwydd fel rhan hanfodol o addoli yn yr eglwys gynnar, a heddiw'r Cymun yw gweithgaredd litwrgiaidd canolog y sawl sydd wedi'u bedyddio o hyd. Yn y gwasanaeth hwn, mae'r litwrgi yn cael ei gwella trwy'r gerddoriaeth a ddarperir gan Gôr y Gadeirlan, sy'n canu rhannau cyffredin yr Offeren (y Kyrie, y Gloria, y Sanctus, y Benedictus, a'r Agnus Dei).

Mae'r Emynau i'w cael yn y daflen emynau wythnosol. Mae popeth arall wedi'i gynnwys yn y llyfryn hwn. Ymunwch yn y geiriau sydd wedi'u hargraffu mewn print **Bras**. Awgrymiadau yn unig yw'r *rubriciau* (a nodir gyda'r symbol '§') yn y gwasanaeth hwn sy'n nodi ystum. Os ydych chi'n fwy cyffyrddus yn eistedd drwy gydol y gwasanaeth, gwnewch hynny.



Mae system dolen glyw ar gael yn y Gadeirlan i ddefnyddwyr tecynnau cymorth clyw. Dylai defnyddwyr droi eu tecynnau cymorth clyw i'r gosodiad T.

Ceir fersiwn print bras o'r llyfryn hwn.

Gofynnwch i stiward am gopi.

Lleolir toiledau ar ddiwedd y Llwybr Gorymdeithiol trwy Gapel Dewi, ar ochr ogleddol y Gadeirlan.

Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ffrydio'n fyw ar sianel YouTube y Gadeirlan. Cymerir gofal i ganolbwyntio ar y litwrgi ac nid y gynulleidfa, ond os ydych yn poeni am fod yn weladwy ar y nant, siaradwch â Stiward.



Gofynnir i chi sicrhau bod eich ffôn symudol neu unrhyw declyn cyfathrebu cludadwy arall wedi'i osod ar ddistaw. Gofynnir yn garedig i chi beidio a chymeryd ffotograff na recordiad sain neu fideo yn y gadeirlan ar unrhyw adeg yn ystod y gwasanaeth.

Cymun

Mae croeso i bawb dderbyn y Cymun Bendigaid neu fendith yn y gwasanaeth hwn. Os byddai'n well gennych dderbyn bendith, nodwch hynny trwy gario eich Trefn Gwasanaeth. Dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid yn ystod y Cymun.

Am resymau hylendid, mae'n arferiad gennym yn y Gadeirlan i beidio â dipio'r Cynhaliwr yn y Garegl. Os ydych yn teimlo'n anghyfforddus yn derbyn o'r Garegl, nid oes rhaid i chi wneud hynny. Derbynnir cymun yn llawn naill ai yn y bara neu'r gwin.

Mae wafferi heb glwten ar gael. Rhowch wybod i offeiriad neu stiward os hoffech dderbyn un.

Rhoi

Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth hwn i gynnal a chadw'r Eglwys Gadeiriol hardd hon. Os hoffech ein cefnogi'n ariannol, mae sawl ffordd y gallwch gyfrannu;

Arian parod a Di-gyffwrdd

Lleolir gorsafoedd cyfrannu wrth Ddrws y Gorllewn



Os ydych yn drethdalwr yn y DU, ystyriwch ddefnyddio Rhodd Cymorth, gan fod hyn yn ein galluogi i hawlio 25% ychwanegol ar bob rhodd.

Arlein

Scaniwch y Côd QR neu ymwelwch â gwefan y Gadeirlan a chliciwch 'Cyfrannu'.



Diogelu

Mae plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn rhan bwysig o gymuned yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llandaf, ac yn yr Eglwys Gadeiriol ei hun. Cânt eu parchu a'u coleddu er eu mwyn eu hunain.

Mae'r Gadeirlan wedi ymrwymo i gymryd ei chyfrifoldebau o ddifrif i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed a diogelu eu lles. Mae'r Gadeirlan yn mabwysiadu Polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc yr Eglwys yng Nghymru ac yn cynnal ei Chod Ymarfer Da.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.llandaffcathedral.org.uk/safeguarding/

§ *Cyhoeddir hysbysiadau o'r Llithfaen cyn y gwasanaeth.*

Y DOD YNGHYD

§ *Sefwch tra bod yr Orymdaith yn cyrraedd wrth ganu:*

Emyn Gorymdeithiol

Gwelwch y daflen wythnosol ar gyfer geiriau a cherddoriaeth yr Emyn.

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Pawb **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
a'th gadw di yng nghariad Crist.

Pawb

§ *Neu yn nhymor y Pasg:*
Alelwia! Atgyfododd Crist.

Pawb **Atgyfododd yn wir. Alelwia!**

**Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol,
edrych arnom yn awr mewn gallu a thrugaredd.
Bydded i'th nerth orchfygu ein gwendid,
i'th lewyrch oleuo ein dallineb,
ac i'th Ysbryd ein denu at y cariad hwnnw
sy'n cael ei ddangos a'i gynnig inni gan dy Fab,
ein Gwaredwr lesu Grist. Amen.**

Gadewch i ni ymbaratoi i ddathlu'r Cymun drwy feddwl am ein pechodau a cheisio maddeuant Duw:

§ *Eisteddwch neu benliniwch.*

<i>Côr</i>	Κύριε, ἐλέησον.	<i>Kyrie, eleison.</i>	Arglwydd, trugarha.
	Χριστέ, ἐλέησον.	<i>Christe, eleison.</i>	Crist, trugarha.
	Κύριε, ἐλέησον.	<i>Kyrie, eleison.</i>	Arglwydd, trugarha.

Gadewch i ni gyfaddef ein pechodau'n ddarostyngedig gerbron Duw Hollalluog.

Pawb Dad nefol,
**yr ydym wedi pechu ar feddwl,
gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym, ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab lesu Grist
a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr Hollalluog Dduw,
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
a drugarhao wrthych, a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

All **Amen.**

§ **Sefyll.**

Côr *Gloria in excelsis Deo,
et in terra pax hominibus
bonae voluntatis.*

*Laudamus te, benedicimus te,
adoramus te, glorificamus te.
Gratias agimus tibi
propter magnam gloriam tuam.*

*Domine Deus, Rex caelestis,
Deus Pater omnipotens,
Domine Fili unigenite,
Iesu Christe:
Domine Deus, Agnus Dei,
Filius Patris.
Qui tollis peccata mundi,
miserere nobis.
Qui tollis peccata mundi,
suscipe deprecationem nostram.
Qui sedes ad dexteram Patris,
miserere nobis.*

*Quoniam tu solus Sanctus.
Tu solus Dominus.
Tu solus Altissimus,
Iesu Christe,
Cum Sancto Spiritu,
in gloria Dei Patris. Amen.*

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd,
ewyllys da i ddynion.

Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn iti
am dy fawr ogoniant.

Arglwydd Dduw, Frenin nefol,
Dduw Dad Hollalluog.
O Arglwydd, yr unig-genedledig Fab,
Iesu Grist;
O Arglwydd Dduw, Oen Duw,
Fab y Tad,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,
trugarha wrthym.
Tydi sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,
derbyn ein gweddi.
Tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,
trugarha wrthym.

Oblegid ti yn unig sy'n Sanctaidd;
ti yn unig yw'r Arglwydd;
ti yn unig,
O Grist,
gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf
yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

Y Colect

Gweddiwn;

§ *Ar ôl ennyd o dawelwch, mae'r Llywydd yn cynnig y colect ar gyfer y dydd. Yn dilyn y Colect:*

Pawb



CYHOEDDI'R GAIR

§ *Eisteddwch.*

Darlleniad o'r Hen Destament

Darllenydd Darlleniad o...

§ *Ar ddiwedd y darlleniad:*

Dyma air yr Arglwydd.

Pawb **Diolch a fo i Dduw.**

Y Salm

§ *Cenir y salm penodedig gan y côr.*

Darlleniad o'r Testament Newydd

Darllenydd Darlleniad o...

§ *Ar ddiwedd y darlleniad:*

Dyma air yr Arglwydd.

Pawb **Diolch a fo i Dduw.**

Yr Efengyl

§ *Sefwch tra bod yr Efengyl yn gorymdeithio i gorff yr Eglwys. Ymatebwn i glod yr Efengyl wedi i'r côr ganu:*

Alelwia, alelwia, alelwia.

Pawb **Alelwia, alelwia, alelwia.**

§ *Cenir adnod o'r ysgrythur.*

Pawb **Alelwia, alelwia, alelwia.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

Pawb **A hefyd gyda thi.**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant [N],

Pawb *(organ)*

Glo - ry to you, O Lord.

The image shows a musical staff with a treble clef and a key signature of one sharp (F#). The melody consists of a half note G4, followed by a quarter note A4, a quarter note B4, a quarter note C5, a quarter note B4, a quarter note A4, and a half note G4. The lyrics 'Glo - ry to you, O Lord.' are written below the staff.

§ *Ar ôl yr Efengyl:*

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Pawb *(organ)*

Praise to you, O Christ.

The image shows a musical staff with a treble clef and a key signature of one sharp (F#). The melody consists of a half note G4, followed by a quarter note A4, a quarter note B4, a quarter note C5, a quarter note B4, a quarter note A4, and a half note G4. The lyrics 'Praise to you, O Christ.' are written below the staff.

§ *Mae'r organ yn chwarae tra bod gorymdaith yr Efengyl yn dychwelyd i'r Allor Fawr.*

§ Eisteddwch.

Credo Nicea

§ Sefwch a chyd-lefarwch:

Pawb

Credwn yn un Duw,
y Tad, yr Hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.

Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw;
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth.
Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
disgynnodd o'r nefoedd;
Trwy nerth yr Ysbryd Glân
daeth yn gnawd o Fair Forwyn,
ac fe'i gwnaed yn ddyn.
Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat.
dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd
yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.

Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,
ac ynghyd â'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.

Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.
Cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod.
Amen.

Yr Ymbiliad

§ *Penlinio neu Eistedd. Gofynnir i bawb ymateb:*

Pawb Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

§ *Daw'r weddi i derfyn gyda:*

Pawb Dad Trugarog,
**derbyn y gweddiau hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

Y Tangnefedd

§ *Sefyll.*

[Crist yw ein heddwch ni. Cymododd ni â Duw mewn un corff ar y Groes. Deuwn ynghyd yn ei enw a rhannwn ei dangnefedd.]

Pawb Tangnefedd yr Arglwydd
a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Rhannwn gyda'n gilydd arwydd o dangnefedd.

§ *Mae'r bobl yn cyfnewid arwydd o dangnefedd.*

Emyn y Casgliad

Gwelwch y daflen wythnosol ar gyfer geiriau a cherddoriaeth yr Emyn.

§ *Yn ystod yr emyn, gwneir casgliad er gweinidogaeth a chenhadaeth y Gadeirlan.*

Arian parod a Di-gyffwrdd

Lleolir gorsafoedd cyfrannu wrth
Ddrws y Gorllewn



Os ydych yn drethdalwr yn y
DU, ystyriwch ddefnyddio
Rhodd Cymorth, gan fod hyn yn
ein galluogi i hawlio 25%
ychwanegol ar bob rhodd.

Arlein

Scaniwch y Côd QR neu
ymwelwch â gwefan y Gadeirlan a
chliciwch 'Cyfrannu'.



GWEINIDOGAETH Y SACRAMENT

Y Diolch

§ *Cymer yr offeiriad y bara a'r cwpan.*

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni y mae gennym y bara hwn i'w offrymu,
rhodd y ddaear a gwaith dwylo dynol.
Fe ddaw i ni yn fara'r bywyd.

Pawb **Bendigedig fyddo Duw am byth.**

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni y mae gennym y gwin hwn i'w offrymu,
ffrwyth y winwydden a gwaith dwylo dynol.
Fe ddaw i ni yn ddiod ysbrydol.

Pawb **Bendigedig fyddo Duw am byth.**

§ *Gellir llefaru neu ganu'r Sursum Corda:*

The Lord be_ with you and al - so with you.
Lift___ up your hearts. **We lift them to the Lord.**
Let us give thanks to the Lord our God
It is right to give our thanks and praise.

Gweddi Eucharistaidd A

lawn yn wir,
ein dyletswydd a'n llawenydd
bob amser ac ym mhob lle yw rhoi diolch a moliant i ti,
Dad sanctaidd, Frenin nefol, hollalluog a bythfywiol Dduw,
trwy Iesu Grist dy unig Fab ein Harglwydd:

§ *Gellir newid y canlynol gyda rhagymadrodd priodol:*

Ef yw dy Air tragwyddol:
trwyddo ef y creaiſt y cyfanfyd
a'n llunio ni wyr a gwragedd ar dy ddelw dy hun.
Anfonaist ef i fod yn Waredwr inni,
wedi ei eni o Fair trwy nerth yr Ysbryd.
Ar y Groes estynnodd yn llydan freichiau ei drugaredd,
a'n cofleidio yn ei gariad perffaith,
gan ddinistrio grym drygioni, dioddefaint ac angau.
Ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos atgyfodaist ef oddi wrth y meirw
gan agor inni ddrws bywyd tragwyddol.
Trwyddo ef rhoddaist inni
dy Ysbryd sanctaidd a bywiol,
a gwnaethost ni yn feibion a merched i ti dy hun.

Felly, gydag angylion ac archangylion,
a holl gwmpeini'r nef
vcyhoeddwn dy enw mawr a gogoneddus,
gan dy foli bob amser a dweud:

*Côr Sanctus, Sanctus, Sanctus,
Dominus Deus Sabaoth.
Pleni sunt coeli et terra gloria tua;
Hosanna in excelsis.*

[*Benedictus qui venit
in nomine Domini.
Hosanna in excelsis.*]

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.

[Bendigedig yw'r hwn
sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd
Hosanna yn y goruchaf.]

§ *Eisteddwch neu benliniwch.*

Clyw ni, Dad nefol,
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd.
Trwyddo ef derbyn ein haberth o foliant,
a chaniatâ, trwy nerth dy Ysbryd,
i'r rhoddion hyn o fara a gwin fod i ni ei gorff a'i waed ef;
y nos y bradychwyd ef,
cymerodd fara a rhoi diolch i ti;
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud,

Cymerwch, bwyteuoch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch.
Gwnewch hyn er cof amdanaf.

Yr un modd, ar ôl swper,
cymerodd y cwpan a rhoi diolch i ti;
fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud,

Yfwch o hwn, bawb;
oherwydd hwn yw fy ngwaed i,
gwaed y cyfamod newydd,
a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau.
Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef,
er cof amdanaf.

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:

Pawb



Felly, O Dad,
gan gofio angau achubol ac atgyfodiad dy Fab,
offrymwn i ti mewn diolch y bara hwn a'r cwpan hwn,
dy roddion inni,
a diolchwn i ti am ein cyfrif yn deilwng i sefyll
yn dy ŵydd a'th wasanaethu.

Anfon dy Ysbryd Glân ar bawb ohonom
sy'n rhannu'r bara hwn a'r cwpan hwn.

Cryfha ein ffydd, gwna ni'n un
a chroesawa ni a'th holl bobl
i deyrnas ogoneddus dy Fab.

Trwyddo ef, gydag ef, ac ynddo ef,
yn undod yr Ysbryd Glân,
eiddot ti, Dad hollalluog,
yw'r holl anrhydedd a gogoniant
yn oes oesoedd.

Pawb



§

Ceir ennyd o dawelwch.

Mae'r gwasanaeth yn parhau ar dudalen 25

Gweddi Eucharistaidd B

I ti y perthyn addoliad a mawl,
O Dad, bob amser ac ym mhob lle.
Ti biau bob gallu.
Ti a greodd y nefoedd a sefydlu'r ddaear;
ti sy'n cynnal pob peth sy'n bod.
Yng Nghrist dy Fab y mae ein bywyd ni a'th fywyd
dithau yn cael eu dwyn ynghyd a'u cyfnewid yn rhyfeddol.
Ymgartrefodd ef gyda ni
fel y bo i ni fyw am byth ynot ti.

Trwy dy Ysbryd Glân
yr wyt yn ein galw i enedigaeth newydd mewn creadigaeth a adferwyd gan gariad.
Yn blant dy bwrpas achubol
cyfl wynwn i ti ein mawl,
gydag angylion ac archangylion a chwmpeni'r nef,
gan ganu emyn dy ogoniant diddiwedd:

<i>Côr</i>	<i>Sanctus, Sanctus, Sanctus, Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt coeli et terra gloria tua; Hosanna in excelsis.</i>	Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.
------------	--	--

[*Benedictus qui venit
in nomine Domini.
Hosanna in excelsis.*]

[Bendigedig yw'r hwn
sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd
Hosanna yn y goruchaf.]

§ *Eisteddwch neu benliniwch.*

Y gogoniant a'r diolch a fo i ti, Dad cariadus,
am roi dy Fab a anwyd yn gnawd fel ninnau.
Ef yw'r gair sy'n bodoli y tu hwnt i amser,
y ff ynhonnell a'r diben terfynol,
sy'n cyfannu popeth a wnaed.
Yn ufudd i'th ewyllys bu farw ar y groes.
Trwy dy allu codaist ef o farw'n fyw.
Torrodd rwymau drygioni a rhyddhau dy bobl
i fod yn gorff iddo ef yn y byd.

Y nos y traddodwyd ef i farwolaeth,
gan wybod fod ei awr wedi dod,
ac wedi caru ei eiddo ei hun, fe'u carodd hyd y diwedd.
Wrth swpera gyda'i ddisgyblion
cymerodd fara a rhoi diolch i ti.
Fe'i torrodd, a'i roi iddynt gan ddweud:

Cymerwch, bwyteuach.
Hwn yw fy nghorff: fe'i torrir drosoch chwi.

Ar ôl swper, cymerodd y cwpan;
diolchodd i ti, a'i roi iddynt gan ddweud:

Yfwch hwn, bawb.
Hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd,
a dywelltir drosoch, a thros bawb,
er maddeuant pechodau.
Gwnewch hyn er cof amdanaf.

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:

Pawb



Christ has died. Christ is ri - sen. Christ_ will come in Glo-ry.

Ufuddhawn yn awr i orchymyn dy Fab.
Cofi wn ei ddioddefaint bendigedig a'i farwolaeth,
ei atgyfodiad gogoneddus a'i ddyrchafael;
a disgwyliwn am ddyfodiad ei Deyrnas.
Wedi ein huno ag ef, off rymwn i ti y rhoddion hyn
a ninnau gyda hwy, yn un aberth, sanctaidd, a bywiol.

Gwranddo ni, drugarocaf Dad,
ac anfon dy Ysbryd Glân arnom
ac ar y bara hwn a'r gwin hwn,
fel, dan gysgod ei allu bywiocaol ef,
y byddant yn gorff a gwaed dy Fab,
ac y bydd i ni gael ein tanio â fflam dy gariad
a'n hadnewyddu i wasanaeth dy Deyrnas.

Cynorthwya ni, a fedyddiwyd i gymdeithas corff Crist
i fyw ac i weithio er mawl a gogoniant i ti;
boed i ni gyd-dyfu mewn undod a chariad
nes yn y diwedd, yn dy greadigaeth newydd,
yr awn i mewn i'n hetifeddiaeth
yng nghwmni'r Forwyn Fair, yr apostolion a'r proff wydi,
a phob un o'n brodyr a'n chwiorydd, y byw a'r ymadawedig,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef,
yn undod yr Ysbryd Glân,
Dad hollalluog, eiddot ti yw'r holl anrhydedd a gogoniant,
yn oes oesoedd.

Pawb



Organ.
A - men_

§ Ceir ennyd o dawelwch.

Mae'r gwasanaeth yn parhau ar dudalen 25

Gweddïwn yn hyderus ar y Tad:

Pawb Ein Tad,
**yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef,
felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth,
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.
Amen.**

Y Cymun

Pawb Yr ydym yn torri'r bara hwn i rannu yng Nghorff Crist.
**A ninnau'n llawer, un corff ydym,
gan ein bod ni oll yn rhannu'r un bara.**

§ *Cenir yr Agnus Dei gan y Côr (Gellir canu'r Agnus Dei yn ystod dosbarthu'r Cymun)*

Côr *Agnus Dei,
qui tollis peccata mundi:
miserere nobis.*

Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.

*Agnus Dei,
qui tollis peccata mundi:
miserere nobis.*

Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.

*Agnus Dei,
qui tollis peccata mundi:
dona nobis pacem.*

Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.

Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

Pawb **Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

§ *Neu yn nhymor y Pasg:*

Pawb **Alelwia! Crist, ein Pasg, a aberthwyd drosom ni.
Felly, gadewch i ni gadw'r wyl. Alelwia!**

§ *Gwahoddir aelodau'r gynulleidfa i dderbyn Cymun neu fendith gan y Stiwardiaid. Os byddai'n well gennych dderbyn bendith, nodwch hynny trwy gario eich Trefn Gwasanaeth.*

Corff Crist. **Amen.**
Gwaed Crist. **Amen.**

§ *Yn ystod dosbarthu'r Cymun, mae'r Côr yn canu Motet. Gwelir geiriau'r Motet ar y daflen wythnosol.*

Yr Emyn wedi'r Cymun

Gwelwch y daflen wythnosol ar gyfer geiriau a cherddoriaeth yr Emyn.

§ *Arhoswch.*

Y Gollwng

Pawb Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef:
ei gariad sy'n dragwydd.

§ *Adroddir gweddi wedi'r Cymun.*

Pawb **Amen.**

Pawb Diolchwn i ti, ein Tad,
**am ein porthi â chorff a gwaed dy Fab
yn y sacrament sanctaidd hwn,
y cawn trwyddo sicrwydd
o'r gobaith am fywyd tragwyddol.
Offrymwn ein hunain yn aberth bywiol i ti.
Cadw ni yng nghymdeithas ei gorff, yr Eglwys,
ac anfon ni allan yn nerth dy Ysbryd
i fyw ac i weithio er mawl a gogoniant i ti.
Amen.**

§ *neu:*

Pawb Dduw tragwyddol,
**cysur y gorthrymedig ac iachäwr y drylliedig,
porthaist ni wrth fwrdd bywyd a gobaith.
Dysg inni lwybrau addfwynder a thangnefedd,
er mwyn i'r holl fyd gydnabod
teyrnas dy Fab,
Iesu Grist, ein Harglwydd.
Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

Pawb

A hefyd gyda thi.

[Bydded i dangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall gadw eich calonnau yng ngwybodaeth a chariad Duw a'i Fab Iesu Grist;]

✠

A bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân
a fo yn ein plith ac a drigo gyda ni yn wastad.

Pawb

Amen.

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Pawb



§

Neu yn nhymor y Pasg:

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd. Alelwia! Alelwia!

Pawb



§

Parhewch i sefyll tra bo'r Orymdaith yn gadael yr Eglwys Gadeiriol.

§

Yr Unawd Terfynol ar yr Organ sy'n diweddu pob gwasanaeth ac mae'n rhan o offrymiad ein haddoliad. A fydddech garediced â pharchu'r rhai sy'n dewis i aros yn eu seddi tan ei fod wedi gorffen.

